*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Mawrth, 6ed Medi, 2022 am 2.30 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 2 Medi 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2022.

**(Tudalennau 5 - 12)**

**3. CYMORTH COSTAU BYW LLEOL - CYNLLUN ATODOL (DISGRESIYNOL)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n rhoi manylion i'r Cabinet am Gynllun Cymorth Costau Byw Atodol (Disgresiynol) lleol.

**(Tudalennau 13 - 16)**

**4. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR - BLAENORIAETHAU BUDDSODDI**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n nodi'r sefyllfa o ran cyfle'r Cabinet i gynnig bod y Cyngor yn buddsoddi ymhellach yn ei feysydd â blaenoriaeth, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024.

**(Tudalennau 17 - 22)**

**5. CYFLWYNO GRANT PANELI SOLAR NEWYDD AC EHANGU'R GRANT GWRESOGI**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu sy'n cynnig sefydlu cynllun grant paneli solar newydd ar gyfer trigolion RhCT; ac ehangu'r cynllun grant gwresogi presennol tan 2025 ar gyfer trigolion RhCT.

**(Tudalennau 23 - 32)**

**6. CYNLLUN PONTIO I GERBYDAU ALLYRIADAU ISEL IAWN**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n amlinellu cynllun y Cyngor i bontio o gerbydau â motor tanio mewnol i gerbydau allyriadau isel iawn dros y 6 mlynedd nesaf. Mae cwmpas a phrif ganolbwynt yr adroddiad yn cyfeirio at gerbydau nwyddau ysgafn y Cyngor.

**(Tudalennau 33 - 42)**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**7. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD - 3A**

Derbyn diweddariad ynghylch Cynllun Dirprwyo’r Arweinydd.

**8. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Griffiths, Head Of Financial Services - Community & Children's Services
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion